Eitem ar yr agenda: 10

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 19 MEDI 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | DIRPRWYO AWDURDOD I GYMERADWYO'R DATGANIAD O GYFRIFON 2004-2005 |

## 1. CYFLWYNIAD

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi disgwyl cwblhau ei archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon i'w gyflwyno a'i gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Medi, ond yn anffodus, ni fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau mewn pryd.

Y cyfle nesaf ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon fydd cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr. Ystyrir bod hyn yn rhy hwyr o ran yr amserlen mae'r Awdurdod yn arfer ei dilyn a byddai'n fwy amserol a phriodol petai'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo cyn mis Rhagfyr. Argymhellir bod y Panel Gweithredol yn cael cyfrifoldeb wedi ei ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon a derbyn yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau a bydd adroddiad yn barod i'w gyflwyno i gyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Hydref.

## 2. ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod yr Awdurdod yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2004-2005 i'r Panel Gweithredol, ac i'r Panel Gweithredol dderbyn yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

*K W Finch*

**Trysorydd**

30 Awst 2005